OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 474 (Cy. 151)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Dwyrain o'r Waun i Gylchfan Whitehurst, Man i'r Gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Dwyrain o'r Waun i Gylchfan Whitehurst, Man i'r Gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion

traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi'r Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Gylchfan y Gledryd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Halton.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Halton hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Whitehurst.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Beicwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi'r Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Gylchfan y Gledryd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Halton.